# Cofnodion

## Pwyllgor Archwilio

Dyddiad: Dydd Iau, 6 Mehefin 2019

Amser: 5.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr J Guy, R White, P Hourahine and Mr J Baker

Pamela Tasker (Governance Officers)

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr J Jordan, L Lacey, K Thomas and D Williams

---

1 **Datganiadau o Fuddiant**

Dim

2 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Nodwyd gan y Cadeirydd, ar dudalen 5 (eitem 2) mewn perthynas â'r paragraff ynghylch y sylw gan y Prif Weithredwr ar Wasanaethau'r Ddinas, y trafodwyd hyn yn eitem 13 a'i fod wedi'i weithredu.

Hefyd ar dudalen 5, cadarnhaodd y Cadeirydd, yn y frawddeg: 'y gellir ail-enwi'r Pwyllgor Archwilio'n Bwyllgor Archwilio a Risg mewn sector arall, nid yn fforwm"….
Hefyd nodwyd gan y Cadeirydd y dylai'r frawddeg; 'byddai angen newidiadau i'r cyfansoddiad' nodi 'i hyn gael ei addasu, dylid newid y cyfansoddiad a rheoliadau Cymru.'

Cytunwyd: Cadarnhau Cofnodion cyfarfod 28 Mawrth 2019

3 **Penodi Cadeirydd**

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor gyflwyno eu henwebiadau ar gyfer penodi Cadeirydd.

**Cytunwyd:**

Penodi Mr John Baker yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio

4 **Rhaglen Waith**

Gofynnwyd i'r Pwyllgor edrych ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ac Atodiad 2. Esboniodd y Partner Busnes Ymchwil a Pherfformiad mai diben y gofrestr risgiau oedd rheoli risgiau ac i dystio bod prosesau ar waith i reoli'r risgiau hynny.
Prif bethau i'w hystyried:
• Ar ddiwedd Chwarter 4, roedd 14 risg gorfforaethol wedi'u cofrestru'n cynnwys 5 risg uchel, 8 risg ganolig ac 1 risg isel.
• Gostyngodd y risg 'Deddfwriaethol' o 16 i 12 yn y chwarter diwethaf a adlewyrchwyd y gwaith wedi'i wneud gyda'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

• Gostyngwyd risg Brexit yn y Chwarter blaenorol o 16 i 12 a adlewyrchwyd gohirio Brexit o fis Mawrth i fis Hydref 2019 gyda'r bygythiad o Brexit heb gytundeb gan yr UE. Byddai Risg Brexit yn parhau i gael ei monitro'n agos a byddai'r Cyngor yn cydgysylltu â Llywodraeth Cymru i fonitro unrhyw newidiadau.
• Risg 5 (Rheoli Ariannol yn Ystod y Flwyddyn) - Lleihaodd y risg hon o 8 i 4 yn y chwarter diwethaf a adroddwyd tanwariant cyffredinol yng nghyllideb y Cyngor. Bydd angen monitro ac ailwerthuso'r risg o ganlyniad i bwysau parhaol ar wasanaethau'r Cyngor ar gyfer 2019/2020

Cwestiynau
Cyfeiriodd aelod y pwyllgor at dudalen 14 yr Adroddiad ar Risgiau Corfforol a gofynnodd ynghylch y term 'risgiau corfforaethol' a'r hyn a olygir pan fo risgiau'n cael eu huwchgyfeirio i lefel gorfforaethol? Cadarnhawyd bod risgiau'n cael eu huwchgyfeirio i reolwyr gwasanaethau a'r uwch dîm rheoli.

Gofynnwyd cwestiwn mewn perthynas â sefyllfa 'dim cytundeb' o ran Brexit, gan fod sgoriau risgiau Brexit wedi gostwng, a ydy hyn yn golygu bod y Cyngor yn cefnogi Brexit heb gytundeb? Cadarnhawyd bod y risg wedi'i lleihau ers 29 Mawrth 2019 gan fod llawer o waith paratoi, gwaith gyda chymheiriaid ac ati. wedi bod. Pe bai sefyllfa dim cytundeb eto, byddai gwaith paratoi'n cael ei wneud yn syth. Dywedodd y Cadeirydd fod gwaith da wedi bod yn cael ei wneud ac nad oedd yn sicr a fyddai risg Brexit yn mynd i fyny neu i lawr ym mis Hydref.

Byddai'r grŵp gorchwyl yn parhau i fonitro ac addasu'r risg fel sydd angen a pha bynnag penderfyniad y byddai'r Llywodraeth yn ei wneud, gellid ei rheoli dros gyfnod hir. Roedd hyn yn cyd-fynd â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Gofynnodd Aelod arall a allai risg nad ydym yn gwybod amdani effeithio ar y Cyngor, o ystyried y sefyllfa wleidyddol a byd-eang gyfredol.

Cadarnhaodd y Partner Busnes Ymchwil a Pherfformiad nad oes modd rhagweld hyn. Dywedwyd bod adolygiad o risgiau'n cael ei gynnal bob blwyddyn. Ystyriodd yr adolygiad o Risgiau Corfforaethol y cynllun gwasanaeth a'r gwasanaethau i edrych ar y tirlun risgiau. Beth oedd y risgiau posibl nawr ac mewn 10 mlynedd? Er enghraifft, beth fyddai effaith newid yn yr hinsawdd ar ddinas Casnewydd mewn 20-30 o flynyddoedd erial a sut byddai'r risg honno'n effeithio ar allu Cyngor Casnewydd i ddarparu gwasanaethau. Golygodd asesu risgiau nodi risgiau cyfredol ac yn y dyfodol.
Dywedodd aelod nad yw llawer o sefydliadau yn cydweithio a gallai hyn fod yn hunllef ac a oes unrhyw fecanweithiau ar waith i ni reoli hyn? Esboniwyd fod y broses risgiau ar waith i nodi unrhyw risgiau sy'n codi ac i reoli'r risgiau, caiff ei monitro'n gyson.

Roedd gan Aelod arall gwestiwn ynghylch Rhaglen/Project Rheoli Risgiau a sut mae'n cael ei rheoli/ei reoli. Cadarnhawyd bod hyn yn cynnwys partneriaeth gwaith rhwng Cyngor Torfaen, heddlu Gwent ac yn y tymor hirach, fforwm Gwydnwch Lleol Dyfodol Gwent.

Cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol fod unrhyw beth sydd angen iddo fod ar y gofrestr risgiau yn cael ei fwydo trwy gynlluniau gwasanaeth. Cyflwynwyd materion oedd modd eu nodi yn yr adran Archwilio gerbron y rheolwyr.

5 **Archwilio Mewnol Barn Archwilio Anfoddhaol**

Dywedwyd wrth yr Aelodau mai diweddariad 6 mis oedd hwn a rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau fod gwelliannau wedi'u gwneud. Dywedwyd wrth y Pwyllgor

-Yn ystod 2016/17, y cafodd **5** barn archwilio oedd yn *Anfoddhaol* ac roedd Pennaeth y Strydlun a Gwasanaethau'r Ddinas wedi'u galw i mewn i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio i ymateb i bryderon.

Yn ystod 2017/18, y cyhoeddwyd **40** barn archwilio yr oedd 6 ohonynt yn *Anfoddhaol.* Camau dilynol ar yr archwiliad o **Asiantaeth/Goramser - Gwrthod** a arweiniodd at ail farn archwilio anffafriol.

-Yn ystod 2018/19, y cyhoeddwyd **48** barn archwilio yr oedd 10 ohonynt yn *Ansicr.*Arweiniodd camau dilynol pellach ar **Asiantaeth/Goramser-Gwrthod** ym mis Mawrth 2019 at farn Archwilio Da.

-Cynigiwyd bod y Pwyllgor Archwilio'n nodi'r adroddiad a bod y Pwyllgor yn cael gwybod i'r camau dilynol ar **Dripiau ac Ymweliadau** yn y Gwasanaethau Addysg arwain at ail farn Archwilio *Anfoddhaol* olynol. O ganlyniad, y protocol cytûn oedd i'r Prif Swyddog Addysg a'r tîm rheoli Addysg gael eu galw i mewn i roi sicrwydd y byddai gwelliannau'n cael eu gwneud.

-Nodwyd bod Ysgol Uwchradd Llanwern wedi cael barn Archwilio resymol, pan gafodd un anfoddhaol yn y gorffennol.
-Roedd SGO a Kinships bellach yn rhesymol.

Mae'r **Prif Feysydd** sy'n gwarantu <u>Barn Archwilio Anfoddhaol</u> fel a ganlyn:

-Rhoddwyd barn archwilio anfoddhaol i Lwfansau Mabwysiadu.
-Derbyniodd Priffyrdd farn archwilio anfoddhaol o ganlyniad i nifer o faterion. Mewn perthynas â Gwasanaethau'r Ddinas, awgrymwyd bod angen galw'r rheolwyr perthnasol i mewn i esbonio pa gamau fyddai'n cael eu cymryd i roi sicrwydd ynghylch faint sydd angen gwella.
-Derbyniodd Ysgol Gyfun Caerllion farn archwilio anfoddhaol o ganlyniad i faterion sylweddol.
-Derbyniodd Canolfan Gyflawni'r Bont farn archwilio ansicr.

**Cwestiynau:**

Gofynnwyd am ddiweddariad ar adroddiad Norse y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) a chadarnhawyd bod adroddiad Drafft bellach ar gael, gyda'r fersiwn terfynol yn cael ei adolygu gan swyddogion a'r Cabinet. Y gobaith yw y byddai'n cael ei gwblhau erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio.

Trafodwyd Ysgol Gyfun Caerllion ac ystyriwyd a ddylid galw'r Pennaeth Addysg i mewn i drafod y Farn Archwilio Anfoddhaol gan y dywedwyd ei bod yn ymddangos bod y diffyg o £1.6M a ragwelir yn y gyllideb yn gwbl anghywir. Hefyd dywedwyd mai Pennaeth yr ysgol a'r Llywodraethwyr sy'n gyfrifol, nid y Pennaeth Addysg.

Dywedodd y Cadeirydd mai'r aelodau fydd bellach yn penderfynu a ddylai'r Pwyllgor alw'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr a byddai barn gan y Pennaeth Addysg hefyd.
Gofynnodd Aelod pan effaith mae'r diffyg mawr hyn wedi'i chael ar ysgolion eraill gan fod Ysgol Gyfun Bassaleg wedi cyfrannu £30,000 i helpu Ysgol Caerllion yn y gorffennol ac roedd yn bryder y byddai hyn yn digwydd eto.

Esboniodd y Pennaeth Cyllid fod gan ysgolion gyllidebau diffyg a dros ben a bod ysgolion heb arian wrth gefn. Roedd wedi'i adrodd i'r Cabinet. Hefyd cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod ysgol uwchradd arall ac eithrio Ysgol Gyfun Caerllion yn cael trafferthion ar hyn o bryd.

Wedyn trafodwyd sut y byddai cymorth Adnoddau Dynol a Chyllid yn cael ei roi ar waith gan fod angen i adnoddau fod ar gael er mwyn gweithio gyda'r ysgol i wrthdroi'r sefyllfa dros y tymor canolig. Nid oedd hyn yn mynd i gael ei ddatrys mewn blwyddyn unigol.

Hefyd eglurodd y Pennaeth Cyllid i'r Pwyllgor na ofynnwyd i unrhyw ysgol helpu ysgol arall allan o drafferthion ariannol. Ni ellir gofyn i ysgol arall helpu Ysgol Gyfun Caerllion allan o

drafferthion ariannol a byddai disgwyl i Ysgol Gyfun Caerllion gymryd rhan mewn cynlluniau i wrthdroi'r sefyllfa ariannol.

Hefyd cadarnhaodd nad yw cymorth ariannol yn cael ei roi'n uniongyrchol i'r ysgol, ond byddai cymorth ar ffurf adnoddau; pobl ychwanegol i gefnogi'r ysgol. Nid oedd helpu'r ysgol o drafferthion ariannol yn neges briodol.

Sylwodd y Cadeirydd ar a ddylai'r Pwyllgor Archwilio alw'r Pennaeth a Llywodraethwyr i mewn gan fod Ysgol Gyfun Caerllion wedi derbyn un farn archwilio anfoddhaol hyd yn hyn. Nodwyd bod yr ysgol am weithio tuag at wrthdroi'r sefyllfa gyfredol oedd yn gadarnhaol. Mynnodd y Prif Archwilydd Mewnol fod problemau sylweddol yn bresennol ac eithrio'r problemau ariannol a gofynnodd y Cadeirydd a yw galw i mewn i'r Pwyllgor Archwilio ynghynt yn briodol yn yr achos hwn ac a oedd digon i gynnal ymchwiliad.
Cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol fod angen dilyn y farn archwilio mewnol anfoddhaol a'i fod yn gyfiawnadwy i alw rheolwyr yr ysgol i mewn ar hyn o bryd.
Dywedodd aelod fod yr adroddiad yn dangos nad oedd pethau'n cael eu gwneud a chytunwyd bod cynllun gweithredu rheoli ar waith i fynd i'r afael â'r gwendid ond ni ellid canlyn arno tan chwarter 2019/2020.
Dywedodd yr aelod fod pryderon sylweddol megis dim cofnodion wedi'u cofnodi gan y clerc nad oeddent ar gael yn yr ysgol yn ôl y gofyn ac y dylent fod ar gael ar bob adeg.
**Cytunwyd:**

- Galw Pennaeth a Llywodraethwyr ysgol Gyfun Caerllion i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r farn archwilio Anfoddhaol.
- Mewn perthynas â'r camau canlynol ar Deithiau ac Ymweliadau yn y Gwasanaethau Addysg a arweiniodd at ail farn Archwilio Anfoddhaol olynol, cytunwyd galw'r Prif Swyddog Addysg a'r tîm rheoli Addysg i mewn i roi sicrwydd y byddai gwelliannau'n cael eu gwneud.
- Y Prif Archwilydd Mewnol i wneud camau gweithredu priodol ar gyfer y pwyntiau cytûn uchod.

Ar dudalen 48, gofynnwyd i'r Pwyllgor edrych ar baragraff 23-23 ynghylch y Fenter Dwyll Genedlaethol lle bo data wedi'i gasglu a'i ymchwilio.
Roedd yr Adran Archwilio Mewnol yn gyfrifol am gydlynu'r broses ar gyfer y Cyngor a rhoddodd hyn sicrwydd ar a oedd y data'n paru'n gywir neu a oedd yn dwyllodrus.
Nodwyd, ar gyfer yr ymarfer 2016/17, y cafodd 5,123 o barau eu dychwelyd i'r Cyngor ar gyfer ymchwiliad oedd yn ganlyniad ariannol sylweddol.

Mewn perthynas â Budd-dal Tai, Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor a Chartrefi Gofal Preswyl Preifat, daethpwyd o hyd i fwy o wallau ac wedi ymchwilio, canfuwyd bod ffioedd o bron i £70,000 wedi'u talu i leoliad gofal preswyl ar ôl i gleient farw. Cafwyd gwared â'r gordaliad hwn wedyn.

## 6 Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2018/19

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor edrych ar Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2018/2019 a nododd yr holl waith wedi'i gwblhau yn y flwyddyn. Rhoddodd yr adroddiad farn gyffredinol ar effeithiolrwydd rheoliadau mewnol y Cyngor yn ystod 2018/19 oedd yn *Rhesymol:*Rheolir yn ddigonol er nodwyd risgiau a allai beryglu'r amgylchedd rheoli cyffredinol; lefel resymol o sicrwydd.

Hefyd cyfeiriwyd yr adroddiad at berfformiad y tîm a pha mor dda mae'r cynllun archwilio wedi'i gyflawni.
**Y Prif Bwyntiau i'w Nodi:**

- Tynnodd y Prif Archwilydd Mewnol sylw at 'Y Farn Archwilio Gyffredinol' oedd ar dudalen 45; paragraff 6 a ddywedodd fod lefel y sicrwydd a roddir ar reoliadau mewnol yn *Rhesymol.*

- Cynyddodd nifer y barnau archwilio i 48. Roedd y barnau ar sail cydbwysedd o gryfderau a gwendidau.
- Adroddwyd bod 10 barn archwilio'n Anfoddhaol oedd wedi'i drafod yn flaenorol.
- Hefyd cynhaliodd y tîm 'adolygiadau ymchwilio arbennig' oedd yn gyfrinachol ac yn dwys o ran amser.
- Cyhoeddwyd 27 Barn Archwilio *Rhesymol.*
- Ar draws yr holl wasanaeth, roedd 90% o gamau gweithredu y cytunwyd arnynt gan reolwyr wedi'u gweithredu. Fodd bynnag, roedd diffyg adnoddau yn y tîm i ddilyn yr holl adroddiadau archwilio a gyhoeddwyd, felly roedd yn rhaid i'r Tîm Archwilio ddibynnu ar onestrwydd rheolwyr i roi adborth ar unrhyw gamau gweithredu wedi'u gweithredu.
- Y Fenter Dwyll Genedlaethol (NFI) - roedd y Tîm Archwilio Mewnol yn gyfrifol am gydlynu'r broses NFI ar gyfer y Cyngor. Dyma ymarfer paru data bob dwy flynedd i ganfod ac atal twyll. Dychwelwyd mwy na 5,000 o barau lle nodwyd ac adenillwyd gordaliadau fel y trafodwyd yn flaenorol.
- Dangoswyd perfformiad y tîm Archwilio yn **Atodiad A** lle rhestrwyd y barnau ar ochr y dde. Rhoddodd **Atodiad B** ddiffiniad o 'Barnau a Ddefnyddiwyd'. Dangosodd **Atodiad C** waith archwilio di-farn a gwblhawyd yn 2018/2019. Dangosodd **Atodiad D graff** yn dangos y gwaith o Weithredu Camau Gweithredu Cytûn.
- Dangosodd **Atodiad E** y cyhoeddwyd adroddiadau Drafft o fewn 11 diwrnod a'u cwblhau o fewn 3 diwrnod.

**Cwestiynau:**
Gofynnodd aelod, mewn perthynas â'r NFI, a oedd yn bosibl gwneud taliadau i gwmni ffug a sut mae hyn yn cael ei atal. Cadarnhawyd bod parau'n cael eu gwneud gan gredydwyr ac adran y gyflogres lle bod cyfeiriadau'n cael eu paru â chyfrifon banc a nodwyd twyll caffael yn y ffordd hon.
Sylwodd y Cadeirydd ar baragraffau 43 - 46 ynghylch digonedd adnoddau archwilio mewnol a gofynnodd a oedd lefel ddigonol o staff ac a oedd angen mwy o flaenoriaethu yn y tîm. Cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol fod angen amser hir i greu adroddiadau a chytunwyd bod angen blaenoriaethu ond bod cael mwy o adnoddau ac ati. rhoi mwy o sicrwydd. Aildrafodir hyn yn yr eitem agenda nesaf.
Sylwodd y Cadeirydd ar baragraff 52-53 ynghylch sut nad oes unrhyw ddewisiadau penodol a'r ffaith y gellid dileu paragraff 54.
Gwnaethpwyd sylw ar y dreth Gyngor ac a oedd y dreth gyngor yn cael ei chasglu'n llai. Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol ei bod yn broses lwyddiannus a bod y newidiadau a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2019 yn creu heriau a bod Llywodraeth Cymru'n edrych ar ddewisiadau eraill ar gasglu treth gyngor ac roedd y dewisiadau'n ddiddorol iawn ac roedd y rhain yn cael eu treialu.
Canmolodd gwaith y tîm Cyllid.
**Cytunwyd:**
Cafodd yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ei nodi'n ffurfiol a'i gymeradwyo.

7 **Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol 2019/20**

Cyflwynodd y Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol Drafft i'r Pwyllgor yn y gorffennol. Y prif wahaniaeth oedd bod swm y diwrnod cynhyrchiol wedi gostwng, mae **1155** o ddiwrnod cynhyrchiol wedi'u trefnu ar gyfer 2019/20 i gynnal archwiliad. Yn 2018/19, **1214** oedd hyn. Nodwyd fod yr atodiad yn eithaf manwl a'i fod yn trafod popeth.
**<u>Y Prif Bwyntiau i'w Nodi:</u>**
- Roedd yr atodiad yn eithaf manwl a rhoddodd yr holl wybodaeth ddigonol.
- Nodwyd bod swm yr ymchwiliadau arbennig a dderbyniwyd yn llai, a helpodd i gyflawni'r cynllun archwilio.
- Dangosodd paragraff 21 fod **1155** o ddiwrnodau archwilio cynhyrchiol wedi'u hymgorfforu yn y cynllun archwilio.

- Dywedwyd bod angen archwilio'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Addysg yn llawer mwy ac nad oedd gan y tîm yr adnoddau i wneud hyn.
- Mewn perthynas â pharagraff 13, cadarnhaodd y Cadeirydd na allent dderbyn y cynnig a dywedodd bod angen ychwanegu ato. Dylid ystyried peidio â gwneud i'r tîm Archwilio lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Dywedwyd bod angen i Uwch Reolwyr ystyried hyn fel y mae mwy o adnoddau gan yr adran Archwilio i gynnal mwy o archwiliadau sy'n cyd-fynd â barn y Pwyllgor Archwilio.

Dywedodd Aelod y teimlwyd nad oes digon o staff gan y tîm Archwilio a bod llawer o adrannau wedi profi toriadau ac yn lle arfer rheoli da, roedd rhai adrannau'n dibynnu ar y tîm Archwilio i ddatrys pethau ar eu rhan.

**Cytunwyd:**

-Nodi a chymeradwyo'r Cynllun Archwilio mewnol.

-Ystyried peidio â gwneud i'r tîm Archwilio baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn y dyfodol.

-Bod angen archwilio gwasanaethau'n fwy a bod angen i Uwch Reolwyr ystyried adnoddau staff.

-Y byddai'r materion hyn yn cael eu bwydo'n ôl yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio gan y dywedwyd y dylai arfer gorau fod ar waith yn lle na'r adran archwilio'n delio gyda'r materion hyn.

-Dywedwyd gan y Prif Archwilydd Mewnol fod materion difrifol yn cael eu hadrodd i'r pwyllgor archwilio.

8 **Drafft o Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2018/19**

Gofynnwyd i'r Pwyllgor edrych ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft a gyflwynodd drefniadau ar gyfer llywodraethu ar draws y bwrdd.

Nodwyd bod angen gwella.

**Cwestiynau:**

Dywedodd y Cadeirydd fod 51 tudalen ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn rhy fawr a bod angen ei leihau. Hefyd dywedodd y Cadeirydd fod y fframwaith sefydliadol yn brysur a chymhleth iawn a'i fod yn wych i'w ddefnyddio'n fewnol ond roedd bach yn ailadroddus.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at dudalen 106; 3.11 a gofynnodd sut mae'r gwerthoedd Dewr yn cysylltu â'r gofrestr risgiau corfforaethol a dywedodd nad oes unrhyw beth yn bod ar risg a gofynnodd a ydy'r awdurdod yn addasu dull dim risg.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr awydd am risgiau ar gyfer 2019/20 yn dangos lefel y risg y mae'r awdurdod yn fodloni ei phrofi er mwyn darparu gwasanaeth ac er mwyn cyflawni dyletswyddau statudol.

Cadarnhawyd y byddai'r Cabinet yn derbyn cyflwyniad ar y Gofrestr Risgiau ac y byddai gwybodaeth yn cael ei bwydo'n ôl i'r Pwyllgor ac ar y cyd byddai hyn yn creu archwaeth risg ffurfiol ar gyfer 2019/20.

Dywedodd y Cadeirydd, o ganlyniad i nifer y staff a ddiswyddodd, fod dibyniaeth ar y system TG. Hefyd dywedwyd bod rheoliadau o bosibl yn cael eu derbyn o fewn y system, a fyddai rhywbeth yn cael ei gam-godio ac a fyddai llai o gostau'n diystyru hyn.

Mewn perthynas â'r swyddfa Archwilio, os oedd arian yn cael ei arbed o ran lefelau staff ac nad oedd unrhyw wallau dieisiau gan swyddogion, oedd y Cabinet yn meddwl am y materion hyn ac yn ystyried sut mae'r adran Archwilio'n ystyried risg.

Ar hyn o bryd, roedd polisïau'n dawel, ac efallai dylai'r strategaeth risg gael trafodaethau ar edrych ar yr awydd am risg. Oedd yn bosibl ymlacio rheoliadau ariannol?

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn edrych ar adolygu'r awydd risg a fyddai'n dod yn ôl i'r Pwyllgor a chodwyd y mater o'r blaen ond nid ystyriwyd sylwadau'n flaenorol.

Dywedwyd wrth y Cabinet y byddid yn gwneud y Pwyllgor Archwilio'n ymwybodol ac roedd yn glir bod angen gwneud mwy o waith ar awydd am risg ac roedd hyn yn hwyr.

Ar dudalen 117 yr adroddiad, gofynnodd y Cadeirydd a oedd yn werth rhoi Pennaeth yr Archwilwyr Mewnol yn awdur y Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Ar dudalen 120; cyfeiriodd y Cadeirydd at y ddau ddatganiad wedi'u gwneud yn 2018/19 dan y polisi chwythu'r chwiban a gofynnod nhw a yw'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol?
Cadarnhaodd y Prif Archwilydd Mewnol nad yw'r adran archwilio mewnol yn ymwneud â hyn.
Hefyd ar dudalen 120; 5.10 sylwodd y Cadeirydd ar nifer y cwynion ynghylch Casnewydd sydd wedi cynyddu a gofynnodd a yw hyn yn golygu Cyngor Dinas Casnewydd neu'r ddinas ei hun a dywedodd fod angen egluro hyn. Cadarnhawyd gan y Prif Archwilydd Mewnol mai 'dinas' oedd hyn.
Nodwyd fod y grym gan y Pwyllgor Archwilio i alw Penaethiaid Gwasanaeth i mewn fel y galwyd Pennaeth y Strydlun i mewn yn 2018.
Dywedodd y Cadeirydd bod angen cyfeirio at y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn yr Llythyr ymateb gan y Prif Weithredwr yn hwyrach yn yr agenda.
Cyfeiriodd y Cadeirydd at baragraff 10.7 gan ddweud bod dau bwynt bwled mewn perthynas â Chasnewydd yn perfformio 1.9 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd a gofynnodd y Cadeirydd a yw'r cyfartaledd hwn yn dda neu'n ddrwg ac roedd angen egluro hyn.
Sylwodd Aelod y Pwyllgor ar berfformiad gwych ysgolion Cynradd Casnewydd. Cadarnhaodd y cafwyd y wybodaeth o wefan Data Cymru sy'n galluogi pobl i gymharu perfformiadau ag awdurdodau lleol eraill.

## 9 Adroddiad Diwedd Blwyddyn Rheoli ' r Trysorlys 2018/19

Gofynnodd y Cadeirydd i'r eitem agenda hon gael ei thrafod ar ddiwedd y Pwyllgor.
Trafodwyd y canlynol:
Gofynnwyd i'r Pwyllgor edrych ar yr adroddiad ar Reoli'r Trysorlys. Cadarnhaodd yr adroddiad benthyca manylion buddsoddi.
**Prif Bwyntiau:**
Roedd benthyca net y Cyngor wedi cynyddu gan £5.1
Ym mis Mawrth 2019, benthycodd y Cyngor £40m cyn ail-ariannu y stoc gwerth £40m i gael ei ad-dalu ar 10 Ebrill 2019. Cymerwyd y cam hwn yn unol â chyngor gan gynghorwyr y trysorlys yr Awdurdod a gwnaethpwyd y penderfyniad hwn o ganlyniad i ddyddiad terfyn Brexit ar ddod ac felly fe'i sicrhawyd ar 14 Mawrth er mwyn osgoi risg.
**Cwestiynau**
Gwnaethpwyd sylwadau ar a oedd y benthyca'n benderfyniad da gan ei fod yn osgoi risg ond roedd ansicrwydd gan y gallai cyfraddau llog fod wedi codi neu ostwng.
Dywedwyd yr oedd yn hysbys bod y gyllideb yno a bod arwydd arbed yno i swm cyfartaledd felly roedd ail-ariannu ar gyfer cymysgedd, cymysgedd o ddyddiadau aeddfedrwydd i 16 blynedd i 28 mlynedd sy'n gyfnod hir.
Roedd i gyd ar sail ad-dalu, £16m ac wedyn £4m bob 2 flynedd.
Cyfeiriodd aelod at baragraff 7 ar dudalen 144 a gofynnodd pwy oedd y prif awdurdod a chadarnhawyd mai Cyngor Thurrock oedd e.
Roedd Atodiadau A a B rhwng briffio a thrafodwyd yr adroddiad terfynol a'r adroddiad ar reoli'r trysorlys y pethau mawr. Byddai'r atodiadau'n cael eu- e-bostio at aelodau a byddai sylwadau'n cael eu croesawu.
Gofynnwyd cwestiwn am baragraff 9 am y Cyngor yn peidio â bod ag unrhyw fuddsoddiadau tymor hir a beth sydd ei angen arnom? Cadarnhawyd bod angen hanfodol i fenthyca ac roedd angen benthyca a gwnaethpwyd y penderfyniad hwn yn unol â'r strategaeth.

## 10 Datganiadau Ariannol Drafft 2018/19

Cadarnhawyd i Aelodau pwyllgor dderbyn copi o'r Cyfrifon Ariannol Drafft ac roedd y Pennaeth Cyllid yn gobeithio cael mwy o sylwadau ac adborth gan y Pwyllgor. Y bwriad oedd ei gwblhau erbyn dydd llun 10 Mehefin 2019 ar yr hwyraf.
Dywedwyd bod problemau fformatio mewn cwpl o adrannau.
Wedyn rhoddodd cyflwyniad i'r Pwyllgor a roddodd wybod i'r Pwyllgor am y prif agweddau ar y cyfrifon.
**<u>Prif Bwyntiau:</u>**
-Paratowyd y cyfrifon Grŵp yn ychwanegol i'r cyfrifon unigol
-Gorffennodd y Cyngor y flwyddyn gyda thanwariant o £2.4m.

-Gorwariwyd y cyllidebau Anghenion Addysgol Arbennig a Gofal Cymdeithasol yn sylweddol gan bron i £5m.
-Gostyngodd arian wrth gefn y Cyngor y gellir ei ddefnyddio gan £1.7m yn ystod y flwyddyn o £104.3m i £103.0m o arian wrth gefn y gellir ei ddefnyddio.
- Mewn perthynas â arian cyfalaf wrth gefn, roedd arian wrth gefn cyffredinol wedi'i gadw ar £6.5m oedd y swm gofynnol.
-Mae'r Datganiad Trosglwyddo Cronfeydd yn crynhoi arian wrth gefn y Cyngor yn y CIES (Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr) a gedwir gan y Cyngor.
-Mae'r datganiad llif arian yn dangos symudiadau arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian yn y Cyngor. Ar gyfer 2017/18, roedd diffyg ar ddarparu gwasanaeth o £53.5m oedd yn eithaf gwahanol i'r £21.4m dros ben ar gyfer 2017/18 a adroddwyd i'r Cabinet.
Cafodd sawl Atebolrwydd Amodol eu nodi ar 31 Mawrth 2019; MMI Insurances, Cartrefi Dinas Casnewydd ac ati.

**Cwestiynau:**

Gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i wneud sylwadau ar y Datganiad.
Argymhellodd y Cadeirydd gwtogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a nodwyd hyn.
Gofynnodd aelod sut mae'n cymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol a cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod y broses wedi mynd yn dda ac y cafodd ei chwblhau wythnos yn gynt na'r llynedd a chwblhaodd yr adran Cyllid eu gwaith yn gyflym.
Sylwodd Aelod ar y cyfrifon oedd angen eu cwblhau erbyn 31 Mawrth ar ddiwedd y flwyddyn a gofynnodd a ellir gwneud unrhyw beth i gyflymu'r gwaith hwn. Dywedwyd y byddai angen i'r adran Archwilio newid prosesau, fel y drafodaeth ar risgiau ynghynt. Dywedwyd y gellir ei gyflawni pe bai 12 mis oedd yr amserlen.
Gwnaethpwyd sylwadau ar weithrediadau llif arian ar gyfer contractwyr ac na fyddai'n effeithio ar waith cyllid ond y byddai'n effeithio ar anfonebau ac ati.
Sylwodd y Cadeirydd ar dudalen 80 yr adroddiad ar gyfrifon ar gyfer y ffigur 755; nid oedd y bwrdd draenio'n bodoli mwyach a hefyd defnyddiodd tudalen 90 yr adroddiad y termau 'hardcore' a 'topslice' a holwyd am ystyr y rhain. Gofynnwyd am Saesneg symlach gan y Cadeirydd.
Dywedodd y Cadeirydd fod angen cysondeb trwy'r adroddiad gan fod problemau fformatio; roedd y cromfach enillion a cholledion yn wrthdro ac roedd y gweddill wedi'i ddangos fel term mewn cromfach, gan y gallai ennill fod yn rhif cadarnhaol.
Hefyd dywedodd y Cadeirydd ei bod yn teimlo fel mae'r adroddiad wedi'i ysgrifennu fel mae person yn siarad yn lle darllen fel dogfen ffeithiol. Ar dudalen 8, sylwodd y Cadeirydd ar y diagram gan ddweud y dylai fod ganddo dalfyriadau byr a theimlwyd bod diffyg gwybodaeth.
Cytunodd y Pennaeth Cyllid bod angen adroddiad mwy ffeithiol ac argymhellodd y Cadeirydd y dylid dileu brawddeg neu fod angen esboniad yn lle.
Cyfeiriwyd at Ariannu'r gyllideb Gwariant Net ar dudalen 49 yr adroddiad a gwnaethpwyd sylwadau ar y tanwariant o £2.4m a sut roedd hyn yn hidlo trwy eglurhad sydd ei angen.
Dywedodd y Pennaeth Cyllid y byddai'r tanwariant yn cael ei drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn. Y gobaith oedd y byddai'r adroddiad yn hygyrch i unrhyw ddarllenydd y naratif nad oedd o bersbectif cyfrifyddu.
Mewn perthynas ag atebolrwydd amodol yn adran 43, mewn perthynas â MMI Insurances, holodd y Cadeirydd am y dreth 15% ym mis Mawrth 2016 a chytunwyd bod angen ailweithio'r paragraff hwn a bod angen edrych ar y nodyn Darpariaethau.
Gofynnodd y Cadeirydd am y gwariant cyfalaf o £29m ac a yw hyn yn gyfateb i lithriad 50% ac a yw broblem yno. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod llithriad o 50% a bod angen edrych ar y Rhaglen Gyfalaf a bod angen rhoi rhywfaint o realaeth yn y gwaith o gyllidebu ac roedd y sylw hwn yn briodol ac yn gywir gan y Cadeirydd. Roedd angen i waith gyda rheolwyr barhau ac roedd angen diweddaru'r gwaith o gyflwyno rhaglenni'n raddol gan na allai fod yn gywir os yw llithriad. Ai'r ffaith nad yw adnoddau'n cyflawni neu reoli gwael oedd y rheswm?
Dywedwyd nad yw Cyngor Dinas Casnewydd yn unigryw yn hyn o beth, roedd y prif feysydd megis Ysgolion ar Fand B a byddai'r projectau unigol mawr e.e. ysgolion newydd yn cael eu codi gyda chydweithwyr.
Mae IFRS 9 wedi cael effaith sy'n golygu mantolen wedi'i hadfer.
Nid oedd unrhyw effaith faterol gan IFRS 15.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb yn yr adran cyfrifon am eu gwaith caled.
Ni nodwyd unrhyw gamau penodol, a gofynnwyd i’r Pwyllgor Archwilio ddod yn ôl i’r tîm Cyllid gydag unrhyw sylwadau.
Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol y siaradwyd â chydweithwyr eraill ac ar y dyddiad terfyn; 31 Mai cyflwynwyd y cyfrifon drafft gerbron yr adran Archwilio a chawson nhw eu cwblhau gan y Pennaeth Gwasanaeth.

11 **Ymateb Gan y Prif Weithredwr i Mewn yn dilyn Barn Ymchwiliad Mewnol Anffafriol**

Dywedodd y Prif Archwilydd Mewnol fod gwelliannau wedi’u gwneud sydd bellach yn ddigonol i ddelio gyda phroblemau megis ailstrwythuro a darpariaeth gwasanaeth, ond byddai problemau’n gwaethygu cyn iddynt wella o bosibl.
Dywedodd y Cadeirydd y byddai hyn yn cael ei gynnwys yn y cynllun Archwilio.
Cwestiynodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol y soniwyd amdano’n flaenorol y Prif Weithredwr a’r Pennaeth Gwasanaeth a dangosodd ein bod yn gofyn y cwestiynau iawn o’r maes iawn.

12 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

5 Medi 2019

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified